## Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant

## Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru
## Adolygiad Ymarfer Plant Hanesyddol

## Ynglŷn â: SEWSCB 2 / 2017

## Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau arweiniodd at yr Adolygiad

*Cynnwys yn hyn: -*

- *Y cefndir cyfreithiol yn deillio o'r canllawiau mae'r adolygiad yn digwydd mewn perthynas â hwynt*
- *Yr amgylchiadau arweiniodd at yr adolygiad*
- *Y cyfnod amser sy'n cael ei adolygu a pham*
- *Crynodeb o'r llinell amser o ddigwyddiadau o bwys, ychwanegu hyn fel atodiad*

**Cefndir Cyfreithiol**

Fe wnaeth Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru gomisiynu Adolygiad Ymarfer Plant Hanesyddol yn dilyn argymhellion y Grŵp Adolygu Ymarfer a gynullwyd ar 17 Gorffennaf 2017.

Yn unol gyda'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Aml-asiantaeth, mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn i'w gweld o dan adran 5. Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad yn **Atodiad 1.**

**Yr Amgylchiadau Arweiniodd at yr Adolygiad**

Mae'r adolygiad hwn yn ymwneud â theulu gyda 4 o blant oedd yn destun esgeulustod, camdriniaeth gorfforol a chamdriniaeth rywiol.

Fe ganiatawyd gorchmynion gofal llawn ym mis Mawrth 2015 a chaewyd yr Achos Heddlu yn Awst 2015. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad gan yr Heddlu, ail agorwyd yr achos wedyn a chafwyd datgelu pellach gan y plant ym Mehefin 2016 o gamdriniaeth rywiol. Penderfynwyd ar yr adeg honno y dylid atgyfeirio'r achos i'r Grŵp Adolygu Achos, er mwyn ystyried cynnal Adolygiad Ymarfer Plant.

Cytunwyd mai'r cyfnod amser ar gyfer yr adolygiad fyddai o 1 Gorffennaf 2012 hyd at 8 Awst 2015, pan gaeodd yr heddlu'r achos am y tro cyntaf.

Mae cyfnod yr adolygiad yn cynnwys 3 blynedd. Yn ystod y blynyddoedd hyn, roedd y plant rhwng 4 ac 11 mlwydd oed. Mae gan un plentyn anabledd dysgu, ac roedd un arall angen cefnogaeth addysgol ychwanegol. Roeddent yn byw gyda'u rhieni. Roedd cyfraniad rhiantu sylweddol oddi wrth fodryb y fam a'i gŵr.

Cafwyd gwybodaeth o gyfnod cyn Gorffennaf 2012 ar gyfer yr adolygiad, gan y bu'r teulu'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ôl gwybodaeth hanesyddol, fe atgyfeiriwyd y teulu at y Gwasanaethau Cymdeithasol am y tro cyntaf yn 2004, gan nodi bod y rhieni angen cefnogaeth ychwanegol a bod ganddynt anawsterau dysgu. Fe atgyfeiriwyd at y Gwasanaethau Cymdeithasol droeon cyn 2012 oherwydd amgylchiadau gwael yn y cartref, lle nad oedd y rhieni yn gallu ymdopi, cafodd un plentyn losgiad ac oedi cyn cael triniaeth, a gwelwyd cleisiau ar y plant ieuengach. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y rhieni gefnogaeth ychwanegol oddi wrth wasanaethau'n cynnwys Home Start, Grŵp Rhiantu a Gwasanaethau Cefnogi Teulu (FST). Cafodd y plant gefnogaeth o dan adran 17 Deddf Plant 1989 fel Plentyn Mewn Angen.

Yn ystod cyfnod yr adolygiad, fe atgyfeiriwyd 4 gwaith at y Gwasanaethau Cymdeithasol.
Yn 2012 fe atgyfeiriwyd yn ddienw, gan honni bod y plant yn 'cael rhyw', eu bod yn anniben ac nad oedd y rhieni'n gallu ymdopi. Gwnaed ymholiadau gydag un ysgol, a nodwyd yr atgyfeiriwyd yn gynharach am gleisiau ar y plant ieuengach. Caewyd yr achos ac ni chymerwyd unrhyw gamau.

Ymhellach ymlaen yn 2012, fe welwyd y plentyn ieuengaf gan feddyg teulu, gyda chleisiau heb esboniad iddynt, ac o ganlyniad atgyfeiriwyd at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Digwyddodd trafodaeth strategaeth rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Cytunwyd y byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgymryd ag ymchwiliad Adran 47 ar y cyd, oedd yn cynnwys archwiliad meddygol amddiffyn plant oherwydd ehangder y cleisiau. Roedd hwn yn ymchwiliad gan un asiantaeth, gan nad oedd unrhyw rai o'r Heddlu ar gael ar yr adeg honno, gyda threfniant i gysylltu â'r heddlu pe byddai angen. Cadarnhaodd yr Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant nad oedd unrhyw esboniad am y

mwyafrif o'r cleisiau a welwyd. Dywedodd y Fam a'r Fodryb mai plentyn arall oedd yn gyfrifol am y cleisiau. Y canlyniad oedd defnyddio trefn adran 17 Deddf Plant 1989 fel Plentyn Mewn Angen gyda rhaglen o gefnogaeth ychwanegol i'r teulu dros y tri mis nesaf.

Yn 2014 fe atgyfeiriodd yr ysgol am y 3ydd tro. Gwelwyd cleisiau ar y plentyn ieuengaf, a dywedwyd wrth yr ysgol eu bod wedi disgyn oddi ar wal. Yn ystod yr ymholiadau cychwynnol, dywedodd y Fodryb y gallai'r cleisiau fod wedi cael eu hachosi gan yr un plentyn arall, o'r un teulu, yr honnwyd oedd wedi niweidio'r plentyn dan sylw o'r blaen. Dywedodd y rhieni yr achoswyd hyn gan neidio i mewn i bwll. Gofynnodd y Gweithiwr Cymdeithasol i'r rhieni fynd â'r plentyn at y meddyg teulu, ac fe barhaodd y plentyn i fod yn agored ar Gynllun Plentyn Mewn Angen.

Aethpwyd â'r plentyn at feddyg teulu 15 diwrnod yn ddiweddarach a gwelwyd bod ganddynt gleisio helaeth ar wahanol rannau o'r corff. Atgyfeiriodd y meddyg teulu at y Gwasanaethau Cymdeithasol (y 4ydd atgyfeiriad) am gleisiau heb esboniad. Cynhaliwyd trafodaeth strategaeth, a chytunwyd y byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu'n cynnal ymchwiliad Adran 47 ar y cyd. Gwnaethpwyd yr Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant gan baediatregydd, a gadarnhaodd bod y cleisiau'n fwy na beth ellid disgwyl ei weld fel rhan o ddatblygiad plentyn nodweddiadol. Yn ogystal, roedd rhywfaint o'r cleisiau mewn patrwm oedd yn gyson gyda thrawma wedi'i achosi gan wrthrych. Cytunodd y rhieni'n wirfoddol i'r plant fynd i fyw gyda'u Modryb a'u Hewythr, a gosod cytundeb o ddisgwyliadau yn ei le.

Yn ystod asesiad y Gweithiwr Cymdeithasol, nodwyd bod y Fodryb yn ymgymryd â rôl rhiantu ac fe gyfaddefodd iddi ddisgyblu'r plant trwy eu taro. Er gwaethaf hynny, cytunwyd y dylai'r plant aros gyda'r Fodryb a'r Ewythr hyd at adeg y Gynhadledd Amddiffyn Plant. Fodd bynnag, fe newidiodd y cynllun hwn a dychwelwyd y plant at eu rhieni cyn cynnal y Gynhadledd Amddiffyn Plant. Mae'n aneglur pa drefniadau i ddiogelu'r plant a roddwyd yn eu lle ar yr adeg dychwelwyd hwy adref. Rhoddwyd yr holl Blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o dan y categori esgeulustod.

Y diwrnod ar ôl y Gynhadledd Achos, gwnaeth y fam honiad o aflonyddu rhywiol yn erbyn ewythr y plant. Fe adroddodd hi hefyd fod yr Ewythr wedi gofyn i gael rhyw gydag un o'r plant. Dechreuwyd ar ymchwiliad adran 47 ar y cyd rhwng yr Heddlu a Gwasanaethau

Cymdeithasol a gwnaethpwyd penderfyniad i gyfweld y plentyn dan sylw mewn ysgol. Dywedodd y plentyn bod yr ewythr wedi “cyffwrdd” ynddynt. Symudwyd pob un o’r plant allan o dan drefniadau Adran 20 a daethant yn Blant sy’n Derbyn Gofal. Caniatawyd gorchmynion gofal llawn ym Mawrth 2015 a chaewyd yr Achos Heddlu yn Awst 2015.

Mae’r plant hyn wedi datgelu camdriniaeth rywiol ymhellach, tu allan i gyfnod yr adolygiad, ar ôl i’r plant gael eu symud i ffwrdd a’u rhoi mewn llety yng ngofal awdurdod lleol. Cafodd yr honiadau hyn eu hymchwilio gan yr Heddlu.

**Mae’r llinell amser o ddigwyddiadau pwysig yn Atodiad 2**

## Dysgu ar gyfer ymarfer ac ar gyfer sefydliadau

*Dangoswch bob pwynt dysgu unigol sy’n codi yn yr achos yma (yn cynnwys tynnu sylw at ymarfer effeithiol) a rhoi amlinelliad cryno o’r amgylchiadau perthnasol.*

Fel rhan o’r Adolygiad Ymarfer Plant hwn, cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu oedd yn cynnwys ymarferwyr fu’n ymwneud gyda’r teulu.

Mae’r adolygwyr yn dymuno diolch i bawb oedd yn bresennol am eu cyfraniad i’r dysgu oddi wrth yr adolygiad hwn.

Roedd yn cael ei gydnabod, gan mai adolygiad hanesyddol yw hwn, y teimlai ymarferwyr y byddai’r arfer cyfredol yn atal rhai o’r methiannau a nodwyd. Er enghraifft, ar adeg yr adolygiad roedd sefydliad partner yn darparu rhaglen strwythuredig o gefnogaeth ar sail yr adeg yr atgyfeiriwyd yr achos. Erbyn hyn mae’r sefydliad partner honno’n gweithio i ddatblygu’r cynllun gyda’r gweithiwr cymdeithasol mewn ffordd sy’n cymryd i ystyriaeth gefnogaeth gynharach, sy’n caniatáu gweithredu’n fwy cyfannol.

Roedd trafodaethau a’r dysgu a awgrymwyd o’r digwyddiad dysgu’n adlewyrchu sut yr oedd y panel yn meddwl.

**Themâu a phwyntiau dysgu**

Gwelwyd pedair o themâu cyffredin ac mae'r rheiny wedi llywio'r pwyntiau dysgu sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

**Thema 1 – Ni fu asesiad o allu'r rhieni i riantu ac i ddiogelu eu plant.**

Mae'r cofnodion yn cyfeirio at y rhieni fel pobl gydag anghenion arbennig a / neu anawsterau dysgu, ond ni wnaethpwyd unrhyw asesiad ffurfiol o'u rhiantu ar yr adeg honno. Mae tystiolaeth y bu gan y fam weithiwr cefnogi am gyfnod o amser, ond nid yw'n eglur pwy oeddent na beth oedd eu rôl. Cafodd y rhieni eu hasesu'n ffurfiol fel rhan o broses y Llys Teulu, a gwelwyd bod gan y tad anabledd dysgu ysgafn. Mae gan y fam IQ isel ond dim anabledd dysgu. Hyd at y pwynt hwn, defnyddiwyd nifer o dermau oedd yn dweud mai cyfyngedig oedd gallu addysgol y rhieni, ond ni ddefnyddiwyd unrhyw derm cyson.

Ar adeg atgyfeirio am yr ail dro yn ystod cyfnod yr adolygiad, y canlyniad oedd gyrru llythyr at y rhieni i'w cynghori i atgyfeirio eu hunain at wasanaethau cefnogi. Nid yw'n eglur a fyddent wedi gallu deall pa gefnogaeth oedd yn cael ei chynnig iddynt.

Nid oedd tystiolaeth bod gwasanaethau oedd yn gweithio gyda'r teulu wedi ceisio deall beth oedd yr amhariad hwn yn ei olygu iddynt hwy fel rhieni a'u gallu i riantu pedwar o blant, gyda dau ohonynt angen cefnogaeth addysgol ychwanegol. Byddai gwneud asesiad o'r rhieni, gan ganolbwyntio ar eu ffordd o fyw, peirianweithiau cefnogi a'r gallu i weithio gydag ymarferwyr, wedi cynorthwyo ymarferwyr i fesur galluedd y rhieni i ateb anghenion y plant. Byddai hynny wedi caniatáu parhau i fonitro ac i deilwra cefnogaeth mewn ffordd a allai fod wedi galluogi'r rhieni i barhau i newid, yn hytrach na bod angen cylchoedd o gefnogaeth, un ar ôl y llall, fel y cafwyd yn yr achos hwn.

O gofio y cofnodwyd bod gan y rhieni anghenion dysgu ychwanegol, roedd cyfle i bobl broffesiynol oedd yn gweithio gyda'r teulu hwn gynnal asesiadau yn gynharach yn ystod yr achos hwn. Ni ddechreuwyd ar asesiad ffurfiol tan adeg gweithredu yn y Llys Teulu, ac felly fe gollwyd cyfle. Roedd y rhieni eu hunain yn fregus, yn enwedig y tad, a gwelwyd bod

ganddo anabledd dysgu cymedrol. Ni fyddai ganddo'r un gallu i ddeall a phrosesu gwybodaeth.

***Pwynt Dysgu 1***

***Dylai unrhyw asesiad ystyried anghenion dysgu'r rhieni a'u gallu i ateb anghenion eu plant. Dylai unrhyw ymyrraeth gymryd ystyriaeth o ganlyniadau'r asesiad.***

**Thema 2 – Rhannu Gwybodaeth**

Tynnir sylw'n arbennig at rannu gwybodaeth, fel maes sy'n achosi pryder mewn llawer o adolygiadau. Rhaid i benderfyniadau am bryderon diogelu ystyried yr hanes cynharach. Rhaid i asiantaethau rannu'r digwyddiadau allweddol gyda phartneriaid, er mwyn gallu penderfynu ar sail gwybodaeth.

Dywed Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 y "Dylai pob asiantaeth sy'n ymwneud â'r achos baratoi cronoleg sy'n rhoi sylw i'r holl wybodaeth gefndirol sydd ar gael." Mae'r Gweithdrefnau'n awgrymu defnyddio cronoleg wrth ymgymryd ag ymholiadau adran 47.

Tra'i bod yn cael ei gydnabod bod y teulu hwn yn y rhan fwyaf o achosion yn cael cefnogaeth o dan adran 17 Deddf Plant 1989 fel Plentyn Mewn Angen, cynhaliwyd tri ymchwiliad Adran 47 yn ystod cyfnod yr adolygiad.

Yn lleol, mae canllawiau ymarfer ar gyfer staff, a ddatblygwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Achos Difrifol Plant E a gyhoeddwyd yn 2010 gan Fwrdd Diogelu Plant Caerffili yn 2010. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai pobl broffesiynol wedi cael gwell dealltwriaeth/trosolwg o'r achos pe baent wedi cael mynediad at gronoleg gyfredol, naill ai o ran un asiantaeth neu aml-asiantaeth. Yn ddiweddarach, fe adolygwyd y canllawiau hyn mewn ymateb i Adolygiad Ymarfer Plant (Achosion H a J), a gyhoeddwyd yn 2015 a 2016. Yn yr achos yma, roedd asiantaethau wedi rhestru'r ymwneud cynharach yn eu hasesiadau ond doedd dim tystiolaeth o ddefnyddio'r wybodaeth honno i ganfod tueddiadau neu batrymau.

Nododd ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu bod penderfyniadau a wnaed yn digwydd ar sail yr atgyfeirio ar yr adeg honno ac nad oeddent yn ystyried gwybodaeth hanesyddol am y teulu. Nid chafodd unrhyw ymwneud cynharach ei ystyried wrth wneud penderfyniadau, a gallai cronoleg fod wedi achosi ymchwilio ymhellach i effaith ymyraethau cynharach ac a oedd y rheiny wedi arwain at newid parhaus mewn ymddygiad. Fe arweiniodd hyn at gylch o ymyraethau aneffeithiol.

Yn y digwyddiad dysgu, fe nodwyd nad oes proses ffurfiol yn ei lle yn ystod gwyliau ysgol i ysgolion ddarparu gwybodaeth. Roedd awgrym oddi wrth y cynrychiolwyr Addysgol y dylid edrych ar gael peirianwaith i staff ysgol ddarparu gwybodaeth neu gyfrannu mewn ffordd arall at ymholiadau yn ystod cyfnodau gwyliau.

Ers cyfnod yr adolygiad, mae ymarfer wedi newid yn yr ystyr bod asiantaethau'n darparu gwaith cefnogi wedi'i strwythuro, gan weithio'n agosach gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn datblygu rhaglenni ar y cyd. Yn ogystal, wrth gynllunio rhaglenni cefnogi byddent bellach yn ystyried unrhyw ymwneud cynharach a ddigwyddodd.

Tra bod hyn yn galonogol, ni allai'r panel fod yn sicr bod defnyddio cronolegau wedi cael ei wreiddio'n rhan ganolog o'r ymarfer.

***Pwynt Dysgu 2***

***Awdurdodau Addysg i ystyried sut i ddarparu gwybodaeth am blentyn yn ystod gwyliau ysgol mewn perthynas ag ymholiadau diogelu.***

***Pwynt Dysgu 3***

***Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru i gael sicrwydd bod yr holl asesiadau'n cymryd ystyriaeth o wybodaeth hanesyddol sy'n cyfrannu at yr asesiad hwnnw.***

**Thema 3 - Dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008**

**Gwneud Penderfyniadau**

Roedd yr atgyfeirio cyntaf ar gyfer cyfnod yr adolygiad yn atgyfeiriad dienw yn 2012, oedd yn honni bod y plant yn ‘cael rhyw’ a’u bod yn flêr ac nad oedd y rhieni’n gallu ymdopi. Gwiriwyd hyn gydag un ysgol, ac adolygwyd yr atgyfeiriad cynharach ond ni chymerwyd unrhyw gamau. Roedd y gwiriad hwn yn ddibynnol ar nad oedd gan yr ysgol ddim pryderon am gam-drin rhywiol posibl, ond fe wnaeth yr ysgol dynnu sylw at bryderon am lendid gwael ac roedd yr atgyfeiriad cynharach wedi bod ar gyfer cleisiau. Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, roedd arwydd bod angen asesiad cychwynnol gan ddefnyddio Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Fe arweiniodd y digwyddiad cyntaf o gleisio yn 2012 at gefnogi’r plant o dan Adran 17 Plentyn Mewn Angen, er bod yr archwiliad meddygol Amddiffyn Plant wedi cadarnhau bod cleisiau helaeth a dim esboniad drostynt. Roedd hyn yn cyrraedd y trothwy i symud ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant yn hytrach na pharhau fel Plentyn Mewn Angen.

Roedd y Fodryb a’r Ewythr yn cael eu gweld fel ffactorau oedd yn diogelu’r teulu. Nodir bod y Fodryb yn darparu rhiantu a chefnogaeth. Yn dilyn yr Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant yn 2014 pan symudwyd pob un o’r pedwar plentyn i ofal y Fodryb a’r Ewythr, nid oedd eu rôl hwy mewn darparu gofal yn cael ei ystyried yn achos posibl nac yn ffactor oedd yn cyfrannu at y sefyllfa.

Roedd y penderfyniad i symud y plant i ofal y Fodryb a’r Ewythr wedi’i seilio ar wiriad Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC), gwiriad systemau Gwasanaethau Plant a gwybodaeth a rannwyd yn deillio o’r ymchwiliad adran 47 a phryderon a godwyd gan iechyd. Fe barhaodd y plant i aros gyda’r Fodryb a’r Ewythr am gyfnod o hyd at 6 wythnos heb ddefnyddio unrhyw fframwaith cyfreithiol.

Dylai’r drefn o gadw cofnodion yn ymwneud â’r penderfyniadau hyn gael ei chofnodi’n eglur, gan gynnwys y rhesymeg dros eu cymryd. O’r adolygiad, ni welwyd rhesymeg eglur dros gymryd y penderfyniadau hyn mewn dogfennau.

Yn ystod cyfnod yr ymholiadau, fe ddatgelodd y Fodryb wrth y Gweithiwr Cymdeithasol ei bod hi ar adegau wedi taro'r plant. Trafodwyd hyn mewn cyfarfod cyfreithiol a chytunwyd i'r plant aros yng ngofal y Fodryb a'r Ewythr. Nid oes tystiolaeth i'r penderfyniad hwn gael ei herio yn yr ystyr bod y plant wedi'u lleoli gydag aelod o'r teulu yr oedd yn hysbys ei bod wedi eu taro.

Roedd y Cynllun Plentyn Mewn Angen ar gyfer y cyfnod hwn yn datgan y dylai'r plant aros gyda'r Fodryb a'r Ewythr tan ar ôl y Gynhadledd Amddiffyn Plant, er mwyn caniatáu cwblhau'r rhaglen o gefnogaeth strwythuredig. Nid yw'n eglur oddi wrth yr adolygiad ar ba ddyddiad y dychwelwyd y plant at eu rhieni, ond mae'n eglur bod pob un ohonynt wedi dychwelyd cyn dyddiad y Gynhadledd Amddiffyn Plant. Ni chafodd y naill na'r llall o'r penderfyniadau hyn eu herio na'u hystyried yn amhriodol.

Byddai'n anodd i ymarferwyr yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant herio rhywbeth a oedd eisoes wedi digwydd. Er hynny, os yw gweithredu'n digwydd y tu allan i gynllun a gytunwyd, dylai'r dogfennau ddangos rheswm eglur dros wneud hynny.

Fel y safon sylfaenol ofynnol, dylai'r Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol drefnu bod staff gyda sgiliau priodol ar gael i wneud ymchwiliad adran 47. Yn dilyn yr 2il atgyfeiriad yn 2012 (y cyfnod amser cyntaf ar gyfer cleisiau) cytunwyd y byddai ymchwiliad adran 47 yn digwydd ar y cyd, ond fe gynhaliwyd hyn fel ymchwiliad un asiantaeth yn unig gan nad oedd unrhyw swyddogion o'r heddlu ar gael. Mae'r gwasanaethu cymdeithasol yn gallu herio ac mae trefn yn ei lle, ond ni chafodd honno ei defnyddio y tro hwn.

Cafodd yr hwb aml-asiantaeth ei sefydlu yn 2018 ac yno mae asiantaethau, sy'n ymwneud â sgrinio atgyfeiriadau, wedi'u lleoli yn yr un man a chyda mynediad at wybodaeth eu sefydliadau eu hunain, fel bod sgrinio aml-asiantaeth yn gallu digwydd yn fwy effeithiol. Teimlai ymarferwyr bod yr hwb wedi gwella gweithio aml-asiantaeth.

Dylai herio effeithiol fod yn sail i sut mae ymarferwyr yn gweithio. Gellir gwneud hyn yn anffurfiol, ac os bydd angen mae ffyrdd ffurfiol fel Canllawiau Aml-asiantaeth Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru ar Ateb Gwahaniaethau Proffesiynol. Os ydym ni am sicrhau bod

y ffordd o feddwl yn digwydd ar sail tystiolaeth, mae angen felly i staff deimlo y gallant gwestiynu penderfyniadau eu cydweithwyr mewn ffyrdd priodol. Nid oedd tystiolaeth bod herio wedi cael ei ystyried yn yr achos yma ar adegau pan na chadwyd at brosesau.

Yn y digwyddiad dysgu, dywedodd rhai ymarferwyr eu bod yn edrych ar Weithwyr Cymdeithasol fel arbenigwyr ac nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i ddeall beth oedd yn ofynnol ohonynt. Roedd hynny'n golygu nad oeddent efallai'n teimlo y gallent herio, er enghraifft yn ystod y Gynhadledd Amddiffyn Plant. Mae Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru'n datblygu hyfforddiant fydd yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn.

***Pwynt Dysgu 4***

***Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru i gael ei sicrhau bod y rhesymeg ar gyfer gwneud penderfyniadau yn eglur ac wedi'i gofnodi yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.***

***Pwynt Dysgu 5***

***Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru i sicrhau bod staff yn teimlo bod ganddynt y grym i herio cydweithwyr mewn ffyrdd priodol fel rhan o'u hymarfer, tu mewn i'w hasiantaeth a rhwng asiantaethau. Dylai fod gan staff fynediad at Oruchwyliaeth Amddiffyn Plant.***

**Ymddangosiad o Gydymffurfio**

Byddai'r teulu bob tro'n ymgysylltu gyda'r gwasanaethau a gynigiwyd. O adeg yr atgyfeirio cyntaf yn 2004 ymlaen, cafodd y teulu eu hatgyfeirio at nifer o asiantaethau oedd yn darparu rhaglen wedi'i strwythuro o gefnogaeth. Yn ystod adeg yr ymyraethau, byddai gwasanaethau'n nodi bod gwelliant yn digwydd, a byddai eu mewnbwn yn dod i ben, ac fe arweiniodd hyn at gylch o wella ac wedyn dirywio.

*Mae ymddangosiad o gydymffurfio yn golygu bod rhieni'n rhoi'r argraff o gydweithredu gydag asiantaethau lles plant, er mwyn osgoi codi amheuon ac i leddfu pryderon. Mae adolygiadau achos sydd wedi'u cyhoeddi'n tynnu sylw at fod pobl broffesiynol weithiau'n oedi neu'n osgoi ymyrryd oherwydd ymddangosiad o gydymffurfio gan rieni. Mae'r dysgu oddi wrth yr adolygiadau hyn yn tynnu sylw at fod angen i bobl broffesiynol sefydlu beth yw'r ffeithiau a chasglu tystiolaeth am beth sy'n digwydd mewn gwirionedd, yn hytrach na derbyn ymddygiad a datganiadau rhieni. Trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau, gall pobl broffesiynol barhau i ganolbwyntio eu gwaith ar y plentyn. (*Cyfieithiad o wefan yr NSPCC. 'Disguised compliance: learning from case reviews Summary of risk factors and learning for improved practice around families and disguised compliance'. 2014.)

Pan yr honnwyd bod plentyn wedi disgyn oddi ar wal (2014) cynigiwyd tri gwahanol esboniad o hynny ond nid oes tystiolaeth y cafodd y rhieni na'r Fodryb eu herio ynghylch y gwahanol fathau o esboniad a roddwyd ganddynt. Yn y ddau Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant, fe adroddodd y rhieni a'r Fodryb mai'r un brawd neu chwaer arall oedd wedi achosi'r anafiadau, a chymerwyd hynny fel esboniad derbyniol yn ystod yr ymholiadau.

Yn ystod yr asesiad craidd yn dilyn yr atgyfeirio hyn, dywedodd y rhieni wrth staff nad oedd y plentyn gyda'r cleisiau wedi cael ei adael heb ei oruchwylio, sy'n golygu na allai'r brawd neu chwaer arall fod wedi achosi hyn. Pan heriodd staff sut, os oedd hynny'n wir, oedd y cleisiau wedi digwydd, ni wnaethant ymateb. Roedd y rhieni yn defnyddio ymddangosiad o gydymffurfio trwy dargedu'r brawd neu chwaer arall fel yr un achosodd y cleisiau.

*Mae rheol optimistiaeth yn golygu ein bod ni'n debygol o roi gormod o gyfleoedd i gleientiaid, sy'n ganlyniad gwael i blant mewn gormod o lawer o achosion. Mae'n eu gadael hwy'n agored i barhau gydag ansefydlogrwydd wrth i ddiogelu plant fynd a dod heb gyflawni canlyniadau llwyddiannus.* Cyfieithiad o 'Social Work Helper', 28 Gorffennaf 2014

Yn y digwyddiad dysgu, nododd ymarferwyr bod y rheol optimistiaeth wedi dylanwadu ar yr ymarfer.

***Pwynt Dysgu 6***

***Mae angen i weithwyr proffesiynol fedru adnabod ymddangosiad o gydymffurfio gan rieni neu ofalwyr: dylid hyrwyddo cywreinrwydd proffesiynol a chodi amheuon mewn ffordd gadarnhaol.***

**Deall Rôl y Paediatregydd yn y Broses Amddiffyn Plant**

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn cynghori, lle gwelir bod angen archwiliad meddygol, y dylid cynnwys Pediatregydd yn y drafodaeth strategaeth.

Pan ddisgynnodd y plentyn oddi ar y wal, roedd yr hanes o'r anafiadau yn anghyson. Nid chymerodd pediatregydd unrhyw ran yn y drafodaeth strategaeth. Canlyniad yr ymholiadau adran 47 oedd eu bod yn parhau'n agored o dan adran 17 Plentyn mewn Angen, a gofynnwyd i'r rhieni fynd â'r plentyn at feddyg teulu am gyngor ar y cleisiau. Fe aeth y rhieni at feddyg teulu 15 diwrnod yn ddiweddarach. Nododd y meddyg teulu bod nifer sylweddol o gleisiau heb unrhyw esboniad iddynt, ac fe atgyfeiriodd y mater at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Hwn oedd yr ail dro i'r meddyg teulu weld y plentyn hwn gyda chleisiau heb esboniad, ar y ddau dro fe atgyfeiriodd y mater at y gwasanaethau cymdeithasol. Gallai'r cleisiau fod yn hawdd wedi mynd yn llai amlwg i'w gweld yn ystod y cyfnod 15 diwrnod a thystiolaeth bwysig wedi'i cholli. Ar ben hynny, ni chafodd y plentyn eu diogelu yn ystod y cyfnod hwn.

Yn dilyn yr ail Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant (2014) penderfynwyd rhoi pob un o'r pedwar plentyn yng ngofal y Fodryb a'r Ewythr. Ar yr adeg hon, nid oedd tystiolaeth bod ystyriaeth wedi ei rhoi i'r posibilrwydd y gallai'r brodyr neu'r chwiorydd eraill fod angen archwiliad meddygol amddiffyn plant.

***Pwynt Dysgu 7***

***Dylid cynnwys Pediatregydd mewn trafodaethau strategaeth os ystyrir cael***

***archwiliad meddygol.***

***Pan welir bod cleisiau sy’n achosi pryderon, dylid atgyfeirio’r plentyn ar baediatregydd mewn da bryd ar gyfer archwiliad amddiffyn plant.***

**Cynllunio aml-asiantaeth yn dilyn datgelu camdriniaeth rywiol.**

Mae gwefan yr NSPCC yn dyfynnu Radford a chydweithwyr (2011) bod *‘Child abuse and neglect in the UK today’ yn nodi nad yw’r rhan fwyaf o achosion o gam-drin rhywiol yn cael eu hadrodd, eu canfod na’u herlyn. Ni fydd y rhan fwyaf o blant yn dweud wrth unrhyw un eu bod yn cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae’n drosedd sydd fel arfer ond yn hysbys i’r un sy’n cam-drin a’r un sy’n dioddef camdriniaeth.*

Ar ôl i un o’r plant wneud honiad o gam-drin rhywiol, ni roddwyd ystyriaeth i gynnal asesiad aml-asiantaeth yng nghyswllt cam-drin plentyn yn rhywiol, a ddylai gynnwys asesiad gan Baediatregydd. Fel y disgrifiwyd yn gynharach, dylai Pediatregydd gymryd rhan ar adeg trafod strategaeth, pan y byddai efallai angen archwiliad. Mae’n fater o bryder yn yr achos yma na chafodd hynny ei ystyried ar unrhyw adeg.

Mae gwasanaethau arbenigol fel Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) yn darparu asesiad cyfannol o’r plentyn ac yn gyfle ar gyfer gwaith aml-asiantaeth. Gall hyn gynnwys cyfweliadau fideo'r heddlu, archwiliadau fforensig pediatreg, cwnsela a dyrannu cefnogaeth sy’n parhau trwy gydol y broses cyfiawnder troseddol.

Roedd peidio cael pediatregydd yn cymryd rhan ar adeg trafod strategaeth yn golygu na ystyriwyd cynnal asesiad pediatrig o’r plentyn. Cafodd yr honiad ei reoli fel gweithred droseddol, heb gymryd i ystyriaeth y materion ehangach i’r plant dan sylw.

Mae’r panel yn cydnabod bod heriau gyda chael mynediad at y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn lleol; fodd bynnag nid yw hyn yn dileu’r angen i ystyried y gwasanaethau hyn mewn achosion o gam-drin rhywiol honedig.

***Pwynt Dysgu 8***

***Rhaid sicrhau Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru bod cynllunio aml-asiantaeth effeithiol yn digwydd mewn perthynas â datgelu cam-drin rhywiol, sy'n cynnwys cyswllt gyda phaediatregydd a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i gefnogi teuluoedd yn ystod yr ymchwiliad.***

***Pwynt Dysgu 9***

***Rhaid bod llwybr eglur ar gael i Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru i ddarparu mynediad at wasanaethau Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.***

**Thema 4 - Cyflawni'r Dystiolaeth Orau**

Ar ôl i honiad o Gam-drin Rhywiol gael ei wneud ni chyfwelwyd â'r plant gan ddefnyddio canllaw Cyflawni'r Dystiolaeth Orau (ABE).

Mae Canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfweld dioddefwyr a thystion, a chanllawiau ar ddefnyddio mesurau arbennig 2011 yn nodi: *"Pwrpas y canllaw hwn yw cynorthwyo'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal cyfweliadau wedi'u recordio ar fideo gyda thystion bregus, tystion sydd wedi eu bygwth a thystion arwyddocaol, yn ogystal â'r rhai sydd â'r dasg o baratoi a chefnogi tystion yn ystod y broses cyfiawnder troseddol. Mae'r canllawiau'n ymgorffori arfer gorau o ardaloedd lleol ac arbenigedd ymarferwyr, elusennau a grwpiau gwirfoddol sy'n cefnogi dioddefwyr a thystion ar lefel leol. "*

Mae'r canllawiau'n glir mai paratoi yw craidd unrhyw gyfweliad. Dylid cytuno ar ffactorau fel ble, pwy ddylai fod yn bresennol a'r hyn sy'n cael ei ofyn cyn i'r cyfweliad gael ei gynnal. O'r adolygiad, mae'n amlwg nad oedd unrhyw gynllunio ynghlwm wrth gyfweld y plant hyn, ac ni ystyriwyd yr un o'r pwyntiau hyn. Cynhaliwyd y cyfweliad plentyn yn yr ysgol, heb unrhyw drafodaeth flaenorol rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu; roedd 4 oedolyn yn bresennol, 3 ohonynt yn ddynion.

Mae'r canllaw hwn yn cefnogi'r ymagwedd yma ar gyfer pob grŵp agored i niwed, gan gynnwys plant, ac yn awgrymu y gellir cyfweld â phlant iau hyd yn oed gyda chynllunio a chefnogaeth briodol. Yn yr achos hwn, gwnaed penderfyniad na fyddai'r Plentyn ag

Anabledd Dysgu yn cael ei gyfweld gan ddefnyddio'r canllaw hwn. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd.

Yn ystod mis Mawrth 2016 ysgrifennodd ei Anrhydedd y Barnwr Mifflin at Gomisiynydd Plant Cymru mewn perthynas â nifer o achosion cam-drin rhywiol lle'r oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu yn is na'r safon ofynnol. Roedd un o'r achosion hyn yn ymwneud â phynciau'r adolygiad hwn. Gofynnodd i'r Comisiynydd Plant edrych ar gopïau o'i dyfarniadau a chyfeirio at y cyrff priodol. Copïwyd y llythyr hwn at Gadeirydd Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru i sicrhau bod y pryderon yn cael eu trafod gydag aelodau'r Bwrdd

Yn gynnar ym mis Mai 2016 gofynnodd y Comisiynydd Plant am sicrwydd gan Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru bod y pryder hwn yn cael sylw. Yn y ddau fis yn y cyfamser roedd arweinwyr yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyfarfod a thrafod strategaeth i sicrhau y byddai staff rheng flaen perthnasol i gyd yn derbyn hyfforddiant codi ymwybyddiaeth Cyflawni'r Dystiolaeth Orau. Trafodwyd hyn yn llawn yng nghyfarfod Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru Mai 2016.

Trafodwyd y broses hon ymhellach yn y ddau gyfarfod Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru nesaf a rhoddwyd sicrwydd bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau ar gyfer yr holl staff rheng flaen a fyddai'n ymwneud â siarad â phlant yn uniongyrchol. Ar y pwynt hwn ysgrifennodd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru at y Comisiynydd Plant i gadarnhau'r camau a gymerwyd.

**Pwynt Dysgu 10**

***Rhaid i'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu tystiolaeth i Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru bod canllawiau Cyflawni'r Dystiolaeth Orau ar gyfweld plant wedi'u gweithredu a'u hymgorffori'n llawn yn eu hymarfer. Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd neu fframwaith cyfatebol yn mesur cydymffurfiad gyda Chanllawiau*** **Cyflawni'r Dystiolaeth Orau*.***

**<u>Arfer Da / Gwelliannau a wnaed eisoes</u>**

- Dechreuodd Peilot Hwb Diogelu Casnewydd yn 2018, sy'n dod â sefydliadau allweddol ynghyd yn y cam sgrinio, wedi cryfhau gweithio aml-asiantaeth.
- Bellach mae gan Barnardo’s gysylltiadau agosach gyda’r Gwasanaethau Cymdeithasol fel eu bod yn cymryd rhan ar y pwynt atgyfeirio a byddant yn cynllunio unrhyw gynllun cymorth gyda’r gweithiwr cymdeithasol gan ystyried ymyriadau blaenorol.
- Cofnododd Nyrsio ac Addysg Ysgol ganlyniadau Cynadleddau Amddiffyn Plant mewn cofnodion.
- Cyfeiriodd meddygon teulu at y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddau achlysur. Ar y ddau achlysur arweiniodd hyn at Archwiliadau Meddygol Amddiffyn Plant a Chynllun Plentyn Mewn Angen ar un achlysur a Chynllun Amddiffyn Plant ar yr ail achlysur.
- Mae'r Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant wedi cwblhau hyfforddiant ar Gyflawni'r Dystiolaeth Orau.

## Gwella Systemau ac Arfer

*Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Plant a'i aelod-asiantaethau a'r canlyniadau gwella a ragwelir:-*

**Pwynt Dysgu 1**

Dylai unrhyw asesiad ystyried anghenion dysgu’r rhieni a’u gallu i ateb anghenion eu plant. Dylai unrhyw ymyrraeth gymryd ystyriaeth o ganlyniadau’r asesiad.

**Pwynt Dysgu 2**

Awdurdodau Addysg i ystyried sut i ddarparu gwybodaeth am blentyn yn ystod gwyliau ysgol mewn perthynas ag ymholiadau diogelu.

**Pwynt Dysgu 3**

Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru i gael sicrwydd bod yr holl asesiadau’n cymryd

ystyriaeth o wybodaeth hanesyddol sy'n cyfrannu at yr asesiad hwnnw.

**Pwynt Dysgu 4**

Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru i gael ei sicrhau bod y rhesymeg ar gyfer gwneud penderfyniadau yn eglur ac wedi'i gofnodi yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

**Pwynt Dysgu 5**

Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru i sicrhau bod staff yn teimlo bod ganddynt y grym i herio cydweithwyr mewn ffyrdd priodol fel rhan o'u hymarfer, tu mewn i'w hasiantaeth a rhwng asiantaethau. Dylai fod gan staff fynediad at Oruchwyliaeth Amddiffyn Plant.

**Pwynt Dysgu 6**

Mae angen i weithwyr proffesiynol fedru adnabod ymddangosiad o gydymffurfio gan rieni neu ofalwyr: dylid hyrwyddo cywreinrwydd proffesiynol a chodi amheuon mewn ffordd gadarnhaol.

**Pwynt Dysgu 7**

Dylid cynnwys Pediatregydd mewn trafodaethau strategaeth os ystyrir cael archwiliad meddygol.

Pan welir bod cleisiau sy'n achosi pryderon, dylid atgyfeirio'r plentyn ar baediatregydd mewn da bryd ar gyfer archwiliad amddiffyn plant.

**Pwynt Dysgu 8**

Rhaid sicrhau Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru bod cynllunio aml-asiantaeth effeithiol yn digwydd mewn perthynas â datgelu cam-drin rhywiol, sy'n cynnwys cyswllt gyda phaediatregydd a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i gefnogi teuluoedd yn ystod yr ymchwiliad.

**Pwynt Dysgu 9**

Rhaid bod llwybr eglur ar gael i Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru i ddarparu mynediad at wasanaethau Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

**Pwynt Dysgu 10**

Rhaid i'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu tystiolaeth i Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru bod canllawiau Cyflawni'r Dystiolaeth Orau ar gyfweld plant wedi'u gweithredu a'u hymgorffori'n llawn yn eu hymarfer. Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd neu fframwaith cyfatebol yn mesur cydymffurfiad gyda Chanllawiau Cyflawni'r Dystiolaeth Orau.

| Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr | | | |
|---|---|---|---|
| **ADOLYGYDD 1** | Ann Hamlet | **ADOLYGYDD 1 2 *(fel sy'n briodol)*** | Kelly Turner |
| **Datganiad o annibyniaeth oddi wrth yr achos**<br>*Datganiad cymhwyster Sicrhau Ansawdd* | | **Datganiad o annibyniaeth oddi wrth yr achos**<br>*Datganiad cymhwyster Sicrhau Ansawdd* | |
| Cyflwynaf y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-<br><br>• Nid wyf wedi cael cyswllt uniongyrchol gyda'r plentyn neu deulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol yr ymarferwr(wyr) dan sylw<br>• Bod gennyf gymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant priodol, cydnabyddedig, i ymgymryd â'r adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a bu'n drylwyr yn ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion, fel y'u nodir yn y Cylch Gorchwyl | | Cyflwynaf y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-<br><br>• Nid wyf wedi cael cyswllt uniongyrchol gyda'r plentyn neu deulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos<br>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol yr ymarferwr(wyr) dan sylw<br>• Bod gennyf gymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant priodol, cydnabyddedig, i ymgymryd â'r adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a bu'n drylwyr yn ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion, fel y'u nodir yn y Cylch Gorchwyl | |
| **Adolygydd 1** *(Llofnod)* | Ann Hamlet | **Adolygydd 2** *(Llofnod)* | Kelly Turner |
| **Enw** *(Llythrennau bras)* | Ann Hamlet | **Enw** *(Llythrennau bras)* | Kelly Turner |
| **Dyddiad** | 21/05/2019 | **Dyddiad** | 21/05/19 |

| | |
|---|---|
| *Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)* | Alison Mott |
| **Enw** *(Llythrennau bras)* | Dr Alison Mott |
| **Dyddiad** | 22/ 05/ 19 |

**Atodiad 1**: Cylch gorchwyl

**Atodiad 2:** Crynodeb o'r amserlen

| **Proses yr Adolygiad Ymarfer Plant** |
|---|
| *Cynnwys yma, yn gryno:*<br>• *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd Diogelu Plant a’r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu*<br>• *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu, a’r gwasanaethau a fynychodd hwnnw*<br>• *Cafodd aelodau’r teulu eu hysbysu, gofynnwyd eu barn a chafodd eu barn ei mynegi trwy gydol y digwyddiad dysgu, a darparwyd adborth iddynt.* |
| <u>Proses Adolygiad Ymarfer Plant</u><br><br>Fe hysbysodd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru (SEWSCB) Lywodraeth Cymru ar 13 Tachwedd 2017 ei fod yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Plant Hanesyddol mewn cysylltiad â phedwar brawd neu chwaer.<br><br>Adolygydd: Ann Hamlet, Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br><br>Adolygydd: Kelly Turner, Cydlynydd Amddiffyn Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Mynwy<br><br>Cadeirydd y Panel: Dr Alison Mott, Meddyg Dynodedig, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Dyma’r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel:<br><br>• Heddlu Gwent<br>• Gwasanaethau Plant<br>• Gwasanaethau Oedolion<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>• Addysg<br>• Barnardo’s<br><br>Bu’r Panel yn cyfarfod yn rheolaidd o Hydref 2017 ymlaen i adolygu’r wybodaeth aml-asiantaeth a darparu dadansoddiad i gefnogi datblygu’r adroddiad |

Digwyddiad Dysgu

Roedd Digwyddiad Dysgu ym mis Ebrill 2018, gyda'r asiantaethau a ganlyn yn mynychu:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Addysg
- Heddlu Gwent
- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Oedolion
- Barnardo's

Aelodau'r Teulu

Ni hysbyswyd aelodau perthnasol o'r teulu fod yr adolygiad yn cael ei gynnal gan fod ymchwiliad gan yr Heddlu yn parhau. Roedd hyn yn golygu y byddai angen cytundeb gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar unrhyw gyfarfodydd ac nid oedd amseriadau yn caniatáu hyn. Teimlai'r panel nad oedd yn briodol gohirio'r broses trwy aros.

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Y dyddiad y derbyniwyd y wybodaeth ………………………..

Y dyddiad yr anfonwyd llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant ………………………

Y dyddiad dosbarthu i arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol ………………………….

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | ☐ | ☐ | |
| Estyn | ☐ | ☐ | |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | ☐ | ☐ | |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi | ☐ | ☐ | |
| Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi | ☐ | ☐ | |

Atodiad 1

# Cylch Gorchwyl
# Adolygiad Ymarfer Plant Hanesyddol
# Parthed Teulu W Cyf SEWSCB 2017- 0

## Tasgau craidd

- Penderfynu a yw penderfyniadau a gweithredoedd yn yr achos yn cydymffurfio gyda pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd

- Edrych ar weithio rhyngasiantaeth a'r ddarpariaeth o wasanaeth ar gyfer y plentyn a'r teulu.

- Penderfynu i ba raddau roedd penderfyniadau a gweithredoedd yn canolbwyntio ar y plentyn.

- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a'u hysbysu am agweddau allweddol ar gynnydd.

- Cymryd i ystyriaeth unrhyw ymholiadau neu weithrediadau sy'n rhedeg yn gyfochrog ac yn ymwneud â'r achos.

    - Ymchwiliad Heddlu sy'n parhau

- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a phennu ba adnoddau sydd eu hangen.

**Yn ogystal â'r broses adolygu, dylid rhoi sylw penodol i'r canlynol:**

- A oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am y plentyn a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac yn cael ei hystyried wrth i weithwyr proffesiynol asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r plentyn y teulu a'u hamgylchiadau? Sut wnaeth y wybodaeth honno gyfrannu at y canlyniad i'r plentyn?

- A oedd y cynllun amddiffyn plant (a/neu'r cynllun plentyn sy'n derbyn gofal neu'r cynllun llwybr) yn gadarn, ac yn briodol i'r plentyn hwnnw, y teulu a'u hamgylchiadau?

- A gafodd y cynllun ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol? A gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a chyflawni'r cynllun aml-asiantaeth?

- Pa agweddau o'r cynllun a weithiodd yn dda, beth na weithiodd yn dda a pham? I ba raddau y gwnaeth asiantaethau herio ei gilydd o ran effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau cytunedig ar gyfer y plentyn? A gafodd y protocol ar gyfer anghytundeb proffesiynol ei ddefnyddio? A gyflawnwyd dyletswyddau statudol priodol asiantaethau sy'n gweithio gyda'r plentyn a'r teulu?

- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau? Dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill?

- A gyflawnwyd dyletswyddau statudol pob asiantaeth?

- Ystyried unrhyw anghenion ychwanegol yr oedolion o fewn y teulu, ac a gafodd y rhain eu hadnabod a'u trin?

- Deall a oedd anghenion dysgu ychwanegol yr oedolion yn y teulu wedi effeithio ar eu gallu i gadw'r plant yn ddiogel? A oedd unrhyw broses asesu i sefydlu maint eu hanawsterau dysgu?

- Archwilio materion sy'n gysylltiedig â'r broses Amddiffyn Plant o'r pwynt datgelu cyntaf i leoli.

- Sefydlu a ddefnyddiwyd canllawiau cyflawni'r dystiolaeth orau yn effeithiol.

- Archwilio graddfa'r her broffesiynol ar draws asiantaethau.

- Archwilio sut yr oedd gweithwyr proffesiynol yn cyfathrebu â'r plant yn y teulu ac ar draws asiantaethau.

- Sicrhau bod yr adolygiad yn rhychwantu maes oedolion a phlant.

## Tasgau penodol i'r Panel Adolygu

- Canfod a chomisiynu adolygydd/wyr i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.

- Cytuno ar y cyfnod amser ar gyfer yr adolygiad o'r 1af o Orffennaf 2012 hyd at yr 8fed o Awst 2015.

- Pennu pa asiantaethau, gwasanaethau a phobl broffesiynol perthnasol sydd i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser ac adolygiad cychwynnol o'r achos a dangos pa gamau gweithredu a gymerwyd yn fuan sydd wedi digwydd yn barod.

- Cynhyrchu llinell amser, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaeth, wedi'u cyfuno gyda'i gilydd.

- Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr i gael digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, yn cynnwys pennu pwy sydd i ddod yno a threfniadau i'w paratoi a'u cefnogi hwy cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.

- Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr beth fydd y trefniadau cyswllt gyda'r unigolyn ac aelodau o'r teulu cyn y digwyddiad.

- Cael ac ystyried yr adroddiad drafft ar yr adolygiad ymarfer plant, er mwyn sicrhau yr atebwyd y cylch gorchwyl, y rhoddwyd sylw i'r ddamcaniaeth gychwynnol a bod unrhyw ddysgu ychwanegol wedi cael ei bennu a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

- Cytuno ar gasgliadau o’r adolygiad ac ar amlinell o gynllun gweithredu, a gwneud trefniadau ar gyfer cyflwyno i’r Bwrdd ar gyfer ystyried a chytuno.

- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau o’r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl gorffen yr adolygiad a chyn cyhoeddi.

## Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu i’r Bwrdd sydd i gael eu hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu’r cynllun gweithredu.
- Y *Panel Adolygu* yn cwblhau’r adroddiad a’r cynllun gweithredu.
- Y bwrdd yn eu gyrru i’r asiantaethau perthnasol ar gyfer sylwadau terfynol cyn eu harwyddo a’u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau i’r Is-grŵp Adolygu reoli’r cynllun gweithredu aml-asiantaeth, yn cynnwys sut bydd gwelliannau a ragwelir mewn gwasanaethau’n cael eu pennu, eu monitro a’u hadolygu.
- Cyhoeddi’r cynllun ar wefan y Bwrdd.
- Cytuno i ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau a phobl broffesiynol perthnasol.
- Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am wneud pob sylw cyhoeddus ac am ymateb i ddiddordeb y cyfryngau yn yr adolygiad hyd nes bydd y broses wedi’i chwblhau.

# Atodiad 2: Crynodeb o'r Amserlen

**Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru Cyf: *SEWSCB 1 / 2017***

| Math o weithgaredd | 2012 | | | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | Mai | Awst | Medi | Gorff |
| **Addysg Casnewydd** | | • Pryderon Ymwelydd Iechyd, AP meddygol a chefnogaeth yn eu lle ar gyfer y teulu | | • MARF - Pryderon ynghylch esgeulustod: cyrraedd yn hwyr i'r clwb brecwast, cleisio difrifol i'r ddwy goes (blaen a chefn) o faint a nifer sylweddol, a dim sgriffiadau ar ei choesau. Dweud wrth staff iddi syrthio oddi ar wal. |
| **Iechyd** | | • Plentyn yn gweld meddyg teulu, cleisiau niferus, dim esboniad.<br>• Archwiliad meddygol amddiffyn plant gan bediatregydd. Darparodd y Gweithiwr Cymdeithasol brawf cefndir - bydd brawd neu chwaer yn pinsio pan na fydd rhieni'n edrych. Nid oes gan frodyr a chwiorydd eraill gleisiau.<br>• Cafodd dros 20 o gleisiau eu nodi, mwy nag y byddid yn disgwyl eu gweld, dim esboniad am y mwyafrif o'r cleisiau. | | • Wedi gweld meddyg teulu 15 diwrnod ar ôl atgyfeiriad 1 gyda chleisiau helaeth - dywed y fam bod gweithiwr cymdeithasol wedi gofyn iddi wneud apwyntiad i gael profion gwaed atgyf GC wedi ei wneud gan fod pryderon amddiffyn plant sylweddol.<br>• Archwiliad Meddygol AP yn nodi Cleisio helaeth, mwy na 30 heb unrhyw esboniad. Rhoddodd y teulu amryw o esboniadau gan gynnwys ymddygiad 'Tom Boy'.<br>• Hysbyswyd pediatregydd am gronoleg sylweddol o bryderon o fewn teulu W. |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | • Atgyfeiriad dienw. Mae plant 'yn cael rhyw gyda'i gilydd'. Mae'r plant yn fudr ac nid yw eu rhieni'n gofalu amdanynt yn briodol.<br>• NFA. | • Teulu wedi'i adnabod fel dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• Canlyniad: Llythyr at y teulu gyda rhif cyswllt y Gwasanaethau Atal Ymyrraeth Gynnar (EIPS).<br>• 2il atgyfeiriad oherwydd cleisio heb unrhyw esboniad, dywedodd Mam mai brawd neu chwaer wnaeth ei achosi.<br>• Ymholiad a47 ar y Cyd ac archwiliad meddygol AP, wedi'u cwblhau fel SSD asiantaeth sengl yn unig gan nad oedd swyddogion PPU ar gael. | • Cyfnod ymwneud a17 CIN – gwaith a gynlluniwyd wedi'i gwblhau. | • Atgyfeiriad 1 Pryderon ynghylch esgeulustod: cyrraedd clwb brecwast yn hwyr, cleisio difrifol i'r ddwy goes.<br>• Cynghorwyd Mam i fynd at y meddyg teulu i gael cyngor pellach ynghylch y cleisio. Atgyfeirio canlyniad at y Gwasanaeth Cefnogi Teulu ac aros ar agor ar gynllun CIN.<br>• Atgyfeiriad 2 gan y meddyg teulu a fynychwyd gan y Fam ar gyngor GC. Cleisio helaeth heb esboniad. Trefnu archwiliad meddygol AP. Brodyr a chwiorydd wedi'i adnabod fel achos gan Mam.<br>• Canlyniad archwiliad meddygol AP ac a47 ar y Cyd, a phob plentyn yn cael ei ystyried yn rhan o a47. Plant i gael gofal gan Fodryb ac Ewythr o dan a20 yn dilyn gwiriadau Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yn glir. |
| **Heddlu** | | • Ffonio ymddygiad gwrthgymdeithasol. Atgyfeiriad GC wedi'i wneud.•<br>2il atgyfeiriad - trafodaeth strategol gyda'r GC, Meddyg Teulu ac Ymwelydd Iechyd yn credu nad yw'r anafiadau'n rhai damweiniol.<br>• Heddlu yn cau'r log. | • NFA gan yr heddlu o ganlyniad i ymholiadau a47. | • Trafodaeth strategaeth frys ynglŷn â'r plentyn sydd â chleisiau helaeth heb esboniad.<br>• Mynychodd yr heddlu archwiliad meddygol AP a siarad â'r plant ac ni wnaed unrhyw ddatgeliadau. Plant yn cael eu symud i ofal Modryb ac Ewythr (Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yn glir) o dan gontract disgwyliadau wrth i'r ymchwiliad barhau. |

| Math o weithgaredd | 2012 | | | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| | Mai | Awst | Medi | Gorff |
| **Barnardo's** | | | • Cynllun gwaith wedi'i gytuno.<br>• Gweithredu'r cynllun cefnogi, strategaethau a thechnegau. | |

| Math o weithgaredd | 2014 | | |
|---|---|---|---|
| | Awst | Medi | Hyd |
| **Addysg Casnewydd** | | • Canlyniad Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ar gyfer cofrestru o dan gategori Esgeulustod. | |
| **Iechyd** | | • Canlyniad Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ar gyfer cofrestru o dan gategori Esgeulustod a phob plentyn sy'n derbyn gofal trwy drefniadau a20. | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | • Adroddiad meddygol AP - rhai anafiadau ddim yn ddamweiniol.<br>• Nid yw'r rhieni'n ymateb pan gânt eu herio na allai brawd neu chwaer fod yn achos.<br>• Modryb sy'n gyfrifol am ''sortio allan'' y plant ac ymddengys ei bod yn ymgymryd â'r brif rôl rhiantu dros y plant.<br>• Datgelodd modryb ei bod wedi smacio'r plant.<br>• Canlyniad/Gweithredu: Mae'r cyfarfod cyfreithiol yn cytuno na fydd y plant yn cael eu tynnu o'r sefyllfa bresennol.<br>• Ymweliadau dyddiol nes Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi, atgyfeiriad i eiriolaeth i'r rhieni.<br>• Dylai'r cynllun ar gyfer adsefydlu fod trwy gynllunio AP. Argymhellir dychweliad adref graddol i'r plant. | • Canlyniad ar gyfer cofrestru o dan gategori Esgeulustod.<br>• Dychwelodd y plant adref yn ystod y pythefnos cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol, nid hwn oedd cynllun gwreiddiol y rheolwr gwasanaeth.<br>• Mam yn datgelu i weithiwr y Gwasanaeth Cefnogi Teulu am aflonyddu rhywiol gan Ewythr a welwyd gan y plant. Plentyn yn datgelu i'r Fam ei bod wedi cael ei chyffwrdd gan Ewythr.<br>• Trafodaeth strategaeth ac ymholiad a47 ar y Cyd gan 2 heddwas gwrywaidd a Gweithiwr Cymdeithasol benywaidd. Datgelodd y plentyn fod Ewythr wedi ei chyffwrdd ym mhresenoldeb ei mam.<br>• Canlyniad/Gweithredu: Plant yn cael eu symud o dan a20 gyda chyfarfod cyfreithiol a gytunodd ar asesiad PAMS. | • Gorchmynion Gofal Dros Dro yn cael eu caniatáu mewn perthynas â phob plentyn. |

| Math o weithgaredd | 2014 | | |
|---|---|---|---|
| | **Awst** | **Medi** | **Hyd** |
| **Heddlu** | • Adolygiad o Drafodaeth Strategaeth gan DS a gytunodd gyda chamau gweithredu blaenorol.<br>• Nodwyd bod Modryb yn destun pryder fel un oedd yn rheoli'r teulu a ddatgelodd ei bod yn 'taro' y plant, ac y bydd yn cael ei chyfweld.<br>• Plant i ddychwelyd adref gyda chefnogaeth ddyddiol ddwys gan FASS. Cyfweliad gyda rhieni a'r fodryb i'w drefnu a chynhadledd achos amddiffyn plant i'w chynnal. | • Canlyniad Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ar gyfer cofrestru o dan gategori Esgeulustod.<br>• Ymweliad a47 ar y Cyd i siarad â'r plant wedi ei gynllunio.<br>• Cael gwybod bod y Fam wedi gwneud y datgeliad am yr Ewythr a phlentyn arall. Nododd y swyddog bod gan un plentyn anabledd dysgu ac felly na fyddai'n cael ei gyfweld.<br>• Mynychodd yr heddlu'r ysgol a siarad â dau o'r plant.<br>• Ymweliad â'r cyfeiriad cartref, cadarnhaodd y Rhieni fod y plentyn wedi dweud wrthynt am yr Ewythr. | • Yr heddlu'n cyfweld Modryb sy'n cyfaddef taro plentyn a bod â rôl Fatriarchaidd. |
| **Barnardo's** | • Ymweliadau dyddiol fel y cytunwyd. | • Angela yn gwneud datgeliad a chysylltu gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol ar ddyletswydd. | • Mewnbwn Barnardo's yn dod i ben. |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion** | | | • Darparu cefnogaeth. Ymchwiliad heddlu oherwydd honiadau o gam-drin rhywiol ac ariannol. Canlyniad: Dyraniad GC. |

| Math o weithgaredd | 2014 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Tach** | **Rhag** | **Ion** | **Chwef** | **Maw** |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | | • Cyfarfod strategaeth 'cymhleth' wedi'i gynnal, parthed ymosodiad rhywiol ar y plant gan yr ewythr. Honiadau ynghylch cleisio NFA.<br>• Dywedodd Plentyn C y byddent yn teimlo'n gyffyrddus pe gallai athrawes ysgol fod yn bresennol wrth gael eu cyfweld. | | • Cynllunio gwaith uniongyrchol gan ragweld pryd y bydd Gorchmynion Gofal Llawn yn cael eu caniatáu. | • Gorchmynion Gofal Llawn yn cael eu caniatáu ar gyfer y plant i gyd. |
| **Heddlu** | | • Yr heddlu'n gwneud trefniadau ar gyfer cyfweliad gan swyddog benywaidd. | • Adolygiad achos gan DS yn nodi troseddau pellach a ddatgelwyd yn ystod yr ymchwiliad. | | |

| Math o weithgaredd | 2014 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tach | Rhag | Ion | Chwef | Maw |
| | | • Datgelwyd dau ddigwyddiad. Roedd diffyg manylder yn y ddau ddatgeliad gan nad oedd y plentyn yn cofio'r hyn a ddigwyddodd yn dda. | | | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion** | | • Par. honiadau o gam-drin rhywiol ac ariannol. Ymchwiliad yr heddlu ar y gweill.<br>• DLM yn cysylltu â'r Tîm Anabledd Dysgu Oedolion i weld a fyddant yn asesu. | | | |

*Cynhyrchwyd amserlenni manwl gan y gwasanaethau perthnasol at ddibenion yr adolygiad i gynorthwyo'r ddealltwriaeth o'r rhyngweithio cymhleth rhwng digwyddiadau a gwasanaethau yn yr achos hwn.*
*Mae'r amserlen gryno a rhannol hon yn cynnwys manylion cyfyngedig a dienw ac fe'i darperir er mwyn ategu amlinelliad o'r amgylchiadau yn yr adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant.*